

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU)

ADNODD DYSGU:

Gofalwyr y Bobl sydd â Chyflyrau Iechyd Meddwl

Trosolwg

Mae hwn yn drosolwg o'r adnodd sydd ar gael yma am ofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl. Y cyflwyniad yn rhan 3 yw'r prif adnodd ar gyfer hyfforddi pobl ynghylch sut y mae'r Ddeddf yn berthnasol i ofalwyr

- **Adran 1: Amcanion, Cynulleidfaoedd a Chanlyniadau**
- **Adran 2: Trosolwg o'r Gweithdy**
- **Adran 3: Cyflwyniad PowerPoint gyda nodiadau'r hyfforddwr**
- **Adran 4: Adnoddau Fideo**
- **Adran 5: Taflenni Gwybodaeth**

Adran 1: Amcanion, Cynulleidfaoedd a Chanlyniadau

Nod y deunydd hyfforddi hwn yw:

- Helpu staff y sector statudol a'r trydydd sector i ddeall goblygiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf) yn well o ran hawliau gofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl o dan y Ddeddf
- Helpu staff y sector statudol a'r trydydd sector i ddeall hawliau gofalwyr o dan y Ddeddf yn well
- Helpu staff y sector statudol a'r trydydd sector i ddeall hawliau gofalwyr o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl

Cynulleidfa

Y gynulleidfa ar gyfer yr hyfforddiant yw staff yn y sector statudol a'r trydydd sector sydd yn gweithio gyda gofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl. Mae'r hyfforddiant yn cymryd yn ganiataol bod unigolion yn meddu ar ychydig o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o brif egwyddorion y Ddeddf.

Canlyniadau: Wedi'r hyfforddiant hwn, bydd unigolion yn:

- Deall sgil-efeithiau'r Ddeddf yn well
- Deall sut y mae'r Ddeddf yn newid statws cyfreithiol gofalwyr
- Deall beth yw hawliau gofalwyr
- Deall hawliau gofalwyr o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Gwybod ble i ddanfôn gofalwyr iechyd meddwl am wybodaeth a gwasanaethau sydd yn ymwneud â'r Ddeddf

Adran 2: Trosolwg o'r Gweithdy

Bydd rhan 1 o'r gweithdy yn cynnwys:

- Cyflwyniad a chroeso i'r gweithdy
- Cyflwyniad PowerPoint yn cynnwys:
 - Amcanion a chanlyniadau'r hyfforddiant
 - Trosolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf)
 - Prif ddarpariaethau ac agweddau'r Ddeddf sydd yn berthnasol i ofalwyr

Bydd rhan 2 o'r gweithdy yn cynnwys:

- Dangos 2 ffilm fer o ofalwyr yn siarad am eu profiadau
- Trafodaeth grŵp am y prif faterion sydd yn effeithio ar ofalwyr a sut y gall y Ddeddf eu helpu i fynd i'r afael â llawer o'r materion yma

Bydd rhan 3 o'r gweithdy yn cynnwys:

- Cyflwyniad PowerPoint a fydd yn trafod:
 - Hawliau gofalwyr o dan y Ddeddf - gan ganolbwyntio ar asesiadau gofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl
 - Hawliau gofalwyr o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 – gan gynnwys rôl y 'Perthynas Agosaf'
 - Hawliau gofalwyr o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Adran 3: Cyflwyniad PowerPoint gyda Nodiadau'r Hyfforddwr

Y cyflwyniad canlynol yw beth fydd yn cael ei gyflwyno gan yr hyfforddwr:

Sleid 1



Sleid 2

The slide features the following elements:


- Top left: The text 'Bydd rhan gyntaf y gweithdy hwn yn trafod:' in a green font, underlined.
- Top right: A small version of the 'Deall y Ddeddf' hand graphic.
- Center: A green-bordered box containing a list of three bullet points:
 - Amcanion a Chanlyniadau
 - Trosolwg o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – cyfeirir ati fel 'y Ddeddf' o nawr ymlaen
 - Prif ddarpariaethau ac agweddau'r Ddeddf sy'n ymwneud â gofalwyr

Nodiadau'r Hwylusydd:

Rhowch wybod i'r sawl sydd yn mynychu'r gweithdy y byddwch yn cyfeirio at y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fel y 'Ddeddf' am weddill y gweithdy.

Sleid 3

Bydd ail ran y gweithdy hwn yn trafod:




- Rhai o'r materion hynny sydd yn effeithio ar ofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl
- Sgîl-ffaith y Ddeddf a sut y mae'n effeithio ar ofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl
- Yn cynnwys ffilm fer am ofalwyr yn trafod eu profiadau
- Yn cynnwys trafodaeth grŵp am y ffilm a sut y gall y Ddeddf helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon sydd wedi eu mynegi

Nodiadau'r Hwylusydd:

Rhowch wybod i'r unigolion sydd yn y gweithdy y byddai'n ddefnyddiol pe baent yn cymryd nodiadau yn ystod y ffilm – sydd tua 12 munud – er mwyn hwyluso'r drafodaeth grŵp sydd i ddilyn. Nod y drafodaeth yw annog gofalwyr i drafod sut y gall y Ddeddf helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon sydd wedi eu mynegi ganddynt.

Sleid 4

Bydd trydedd ran y gweithdy hwn yn trafod:




- Hawliau gofalwyr o dan y Ddeddf – gyda ffocws ar asesiadau i ofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl
- Hawliau gofalwyr o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Hawliau gofalwyr o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Nodiadau'r Hwylusydd:

Esboniwch wrth yr unigolion y bydd rhan olaf y gweithdy yn crynhoi rhannau 1 a 2 o'r gweithdy hwn cyn mynd ymlaen i ddangos pa hawliau sydd gan ofalwyr o dan 2 darn sylweddol o ddeddfwriaeth iechyd meddwl – Deddf Iechyd Meddwl 1983 sydd yn berthnasol ar draws Lloegr a Chymru, a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 sydd yn berthnasol i Gymru yn unig.

Lle mae cyfeiriadau i 'hawliau gofalwyr' mae hyn yn adlewyrchu bod yna ddylestwydd statudol o dan ddeddfwriaeth. Eglurwch hefyd, er nad oedd y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael ei gynnwys yn y gweithdy hwn, dylai cyfranogwyr bod yn gyfarwydd efo'r darn pwysig o ddeddfwriaeth.

Sleid 5




Amcanion

- Helpu staff y sector statudol a'r trydydd sector i ddeall goblygiadau y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf) yn well o ran hawliau gofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl o dan y Ddeddf
- Helpu staff y sector statudol a'r trydydd sector i ddeall hawliau gofalwyr o dan y Ddeddf yn well
- Helpu staff y sector statudol a'r trydydd sector i ddeall hawliau gofalwyr o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl

Nodiadau'r Hwylusydd:

Mae prif ran y cyflwyniad hwn yn ymwneud â sut y gall y Ddeddf gefnogi gofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl ond mae hawliau gan y grŵp yma o ofalwyr hefyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Sleid 6



Canlyniadau

O safbwynt gofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl, bydd unigolion yn:

1. Deall sgil-efeithiau'r Ddeddf yn well
2. Deall sut y mae'r Ddeddf yn newid statws cyfreithiol gofalwyr
3. Deall beth yw hawliau gofalwyr
4. Deall hawliau gofalwyr o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
5. Gwybod ble i ddanfôn gofalwyr iechyd meddwl am wybodaeth a gwasanaethau sydd yn ymwneud â'r Ddeddf

Nodiadau'r Hwylusydd:

2. e.e. diffiniad o ofalwyr
3. e.e. newidiadau i'r trefniadau ar gyfer asesiadau gofalwyr

Sleid 7



Trosolwg o'r Ddeddf

- Rhan 1: Cyflwyniadau
- Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol
- Rhan 3: Asesu Anghenion Unigolion
- Rhan 4: Diwallu Anghenion
- Rhan 5: Taliadau ac Asesiadau Cyllidol
- Rhan 6: Plant Sy'n Derbyn Gofal a'n Cael Eu Lletya
- Rhan 7: Diogelu
- Rhan 8: Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rhan 9: Cydweithio a Phartneriaeth
- Rhan 10: Gwasanaethau Cwynion, Sylwadau ac Eiriolaeth
- Rhan 11: Amrywiol a Chyffredinol


Nodiadau'r Hwylusydd:

Rhowch wybod i unigolion na fyddwch yn mynd drwy bob un rhan o'r Ddeddf ac ond yn canolbwyntio ar y rhannau allweddol sydd yn berthnasol i ofalwyr – Rhannau 1, 2, 3 a 4.

Ar ôl crynhoi prif ddarpariaethau ac agweddau'r Ddeddf sydd yn berthnasol i ofalwyr, byddwch yn canolbwyntio ar anghenion penodol gofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl ac yn trafod sut y gall y Ddeddf eu cefnogi.

Er bod yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar ofalwyr, mae darpariaethau'r Ddeddf yr un mor berthnasol i bobl sydd angen gofal a chymorth. Un o rinweddau'r Ddeddf yw bod gofalwyr yn meddu ar yr un hawliau â'r bobl sydd angen gofal a chymorth.

Rhowch wybod i unigolion bod hyfforddiant pellach ar gael sydd yn trafod pob agwedd o'r Ddeddf mewn cryn dipyn o fanylder a chyfeiriwch at ble y mae'n bosib cael gafael ar yr hyfforddiant hwn.



Rhan 1 o'r Ddeddf: Cyflwyniad

- Yn gwneud darpariaeth ar gyfer canlyniadau lles i ofalwyr sydd angen cymorth – a diffiniad o 'lles'

- Mae diffiniad o ofalwr fel a ganlyn; 'person sydd yn darparu gofal neu'n bwriadu gofalu am oedolyn neu blentyn anabl'

Nodiadau'r Hwylusydd:

Mae diffiniad newydd o ofalwyr yn golygu nad yw'r anghenraid cynt – sef bod gofalwyr yn darparu "swm sylweddol o ofal yn gyson" – yn berthnasol mwyach.

Ystyr llesiant

Mae 'llesiant' o ran person yn golygu llesiant sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- Llesiant corfforol ac iechyd meddwl ac emosiynol
- Diogelwch rhag unrhyw gamdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a seibiant
- Perthynas ddomestig, deuluol a phersonol
- Cyfraniad a wneir i gymdeithas
- Sicrhau hawliau a hawlogaethau
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd amgylchiadau byw

O safbwynt plentyn, mae llesiant hefyd yn cynnwys:

- Datblygiad corfforol, meddyliol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- Mae 'lles' yn cael ei ddiffinio yn Neddf Plant 1989

O safbwynt oedolyn, mae 'llesiant' hefyd yn cynnwys:

- Rheolaeth dros fywyd dydd i ddydd
- Cymryd rhan mewn gwaith

Sleid 9

Rhan 2 o'r Ddeddf: Swyddogaethau Cyffredinol



- Dyletswyddau cyffredinol – Dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo lles gofalwyr sydd, neu o bosib, angen cymorth
- Canlyniadau Lles - Rhaid i Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad sy'n ymwneud â lles gofalwyr yng Nghymru sydd angen cymorth
- Aseiad Poblogaeth – Rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal aseiad ar y cyd o anghenion cymorth gofalwyr
- Gwasanaethau Ataliol – Rhaid i awdurdod lleol i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau ataliol
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth – Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr sydd yn ceisio cael gafael ar gymorth

Nodiadau'r Hwylusydd:

Dyletswyddau cyffredinol

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn berthnasol i berson sydd yn arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

Mae'r Ddeddf yn gosod anghenraid ar bobl sydd yn arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf (mewn perthynas â gofalwyr sy'n oedolion) yn gorfod rhoi ystyriaeth briodol i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn – Rhannwch daflen (1).

Canlyniadau llesiant

Rhaid i'r datganiad i nodi'r canlyniadau sydd i'w cyflawni, a hynny o safbwynt llesiant y gofalwyr, drwy gyfrwng:

- Cymorth sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol o dan y Ddeddf hon
- Cymorth sy'n cael ei ddarparu gan eraill sy'n debyg i'r hyn sydd yn medru cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol o dan y Ddeddf hon
- Rhaid i'r datganiad hefyd nodi'r mesurau sydd i'w defnyddio er mwyn asesu p'un ai yw'r canlyniadau wedi eu cyflawni

Aseiad Poblogaeth

Rhaid i'r awdurdod lleol – ac unrhyw fwrdd iechyd lleol – sydd yn rhan o ardal yr awdurdod lleol i asesu'r canlynol ar y cyd:

- Y nifer o ofalwyr sydd yn ardal yr awdurdod lleol ac sydd angen cymorth
- Y nifer o ofalwyr sydd angen cymorth ac sydd ddim yn derbyn y cymorth sydd angen arnynt (gan yr awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol neu arall)
- Ystod a lefel y gwasanaethau sydd angen er mwyn diwallu anghenion cymorth y gofalwyr
- Ystod a lefel y gwasanaethau ataliol sydd ar gael
- Sut y bydd y gwasanaethau yma yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg

Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth:

Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu:

- Gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael ac sy'n gyfoes a chywir
- Cyngor ar y cymorth i ofalwyr sydd yn briodol i'r unigolyn yn dilyn aseiad cymesur
- Cyngor sydd yn gynhwysfawr, diduedd ac ym muddiannau'r unigolyn

Sleid 10

Nodiadau'r Hwylusydd:

Atgoffwch yr unigolion nad yw gofalwyr yn gorfod 'darparu swm sylweddol o ofal yn gyson' erbyn hyn fel y nodai'r ddeddfwriaeth gynt.

Pwysleisiwch wrth unigolion bod yn rhaid i awdurdod lleol gynnig asesiadau pan fydd yr awdurdod lleol yn credu bod angen cymorth ar ofalwyr. Dywedwch wrth yr unigolion byddwn yn edrych ar enghreifftiau o ble y mae gofalwr (i rywun sydd â phroblem iechyd meddwl) bosib angen cymorth yn hwyrach yn y cyflwyniad hwn.

Rhan 3 o'r Ddeddf: Asesu Anghenion Unigolion



- Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad gofalwyr yn yr achosion lle y mae'n ymddangos bod y gofalwr angen cymorth
- Mae'r Ddeddf yn gosod anghenraid bod yn rhaid i asesiadau fod yn gymesur er mwyn sicrhau bod mwy o bwyslais ar roi cymorth
- Bydd gofalwyr yn cael eu hasesu i gadarnhau a oes 'angen cymwys' ganddynt o gymharu â'r meini prawf
- Mae rhaid i awdurdodau lleol asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu (a bydd yn parhau i allu), darparu gofal ar gyfer y person y maent yn gofau amdano

Sleid 11

Nodiadau'r Hwylusydd:

Wrth bennu a fydd y cymorth sy'n cael ei ddarparu yn cynorthwyo'r gofalwr i gyflawni ei ganlyniadau personol, bydd yr awdurdod lleol angen ystyried datganiadau llesiant sydd yn diffinio'r hyn a olygir gan llesiant, a hynny o dan pob agwedd o lesiant – cyfeiriwch yr unigolion at gynnwys Sleid 8.

Nid yw'r cymhwyster ar gyfer derbyn taliadau uniongyrchol wedi newid yn sgil y Ddeddf hon ac mae'n destun i asesiad ariannol.



Rhan 4 o'r Ddeddf Diwallu Anghenion (a Taliadau Uniongyrchol)



- Rhaid i awdurdod lleol gadarnhau a yw'r cymorth sydd i'w ddarparu yn mynd i gynorthwyo'r gofalwr i gyflawni ei ganlyniadau personol
- Os yw gofalwr yn cael ei asesu a bod yna gadarnhad bod 'angen cymwys' ganddo i dderbyn cymorth, bydd yr awdurdod lleol yn trefnu cynllun cymorth
- Bydd gofalwyr sy'n cael eu hasesu ac yn meddu ar angen cymwys am gymorth yn medru derbyn taliadau uniongyrchol er mwyn trefnu eu cymorth eu hunain

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer yn hyrwyddo taliadau uniongyrchol ac yn eu gwneud hi'n hawdd i ofalwyr i gael gafael arnynt a'u defnyddio.

Sleid 12 - Sleid 13 – Sleid 14

<p>EGWYL</p>	<p>Iechyd Meddwl a rhai o'r materion eraill sydd yn effeithio ar ofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl</p>	
<p>Deall y Ddedd</p>	<p>Adnodd Fideo</p> <p>Gwylwch y gofalwyr canlynol yn trafod eu bywydau:</p> <p>Frank -</p>  <p>Janice, Pam ac Evelyn -</p> 	<p>Deall y Ddedd</p>

Nodiadau'r Hwylusydd:

Rhowch wybod i'r unigolion eich bod nawr am ddangos rhai clipiau fideo o ofalwyr yn trafod eu profiadau. Gofynnwch i'r unigolion i feddwl am sut y gall y Ddedd helpu i fynd i'r afael ag unrhyw un o'r materion sydd yn cael eu trafod yn y clipiau.


Os nad ydy'r fideos yn chwarae, cliciwch ar y ddolen i agor yn 'YouTube'.

Sleid 15

Nodiadau'r Hwylusydd:

Atgoffwch yr unigolion fod y rhan hon o'r gweithdy yn ymwneud yn benodol â gofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl. Anogwch drafodaeth am rai o'r prif faterion sydd yn cael eu nodi yn y clipiau fideo. Crynhowch y prif faterion a'u rhestru ar siart fflip.

Yn dilyn y trafodaeth grŵp, **rhannwch y daflen: *Papur briffio ar gyfer gofalu am rywun sydd ag afiechyd meddwl***

<p>Trafodaeth</p>  <ul style="list-style-type: none">Beth yw rhai o'r prif faterion a'r pryderon sydd wedi eu trafod yn y fideo?
--

Sleid 16

Nodiadau'r Hwylusydd:

Rhowch **daflen (3)** i'r unigolion sy'n rhestru'r Prif 25 blaenoriaeth sydd wedi eu nodi gan ofalwyr mewn arolwg Hafal.

Mae'r mathau o hyfforddiant a'r cymorth sy'n cael eu crybwyll gan ofalwyr yn cynnwys: adeiladu hyder, dysgu am sgiliau ymdopi, hawliau a chyfrifoldebau a sut i gael gfael ar gyngor a chymorth.

Blenoriaethau



Mae llawer o ofalwyr y bobl hynny sydd â chyflwr iechyd meddwl yn dweud:

- Bod yn well ganddynt dderbyn gwasanaethau sydd yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda'r person y maent yn gofalu amdano
- Yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu ac yn gorfod ymdopi ar ben eu hunain
- Nid ydynt yn derbyn cymorth digonol na gwybodaeth briodol ynghlŷn â gofal a thriniaeth y person y maent yn gofalu amdano
- Angen hyfforddiant a chymorth er mwyn ymdopi yn well


Dywedwch wrth unigolion mai ond sampl o'r prif faterion sydd wedi eu cynnwys ar y sleid hwn. Mae llawer iawn mwy o faterion wedi eu cynnwys yn y papur briffio/trafod ac yn cynnwys:

- Yn gyffredinol, mae'n well gan ofalwyr y bobl hynny sydd yn byw ag afiechyd meddwl difrifol i dderbyn gwasanaethau sydd yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda'r person y maent yn gofalu amdano ac nid ydynt yn gweld gwahaniaeth rhwng eu anghenion hwy a'r person y maent yn gofalu amdano.
- Mae'n hynod bwysig sicrhau bod asesiad gofalwr yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael er mwyn helpu atal unrhyw ddirywiad yng nghyflwr eu hanwylyd a'u helpu i orfod mynd o bosib i'r ysbyty.
- Mae llawer o ofalwyr y bobl hynny ag afiechyd meddwl difrifol yn teimlo nad ydynt yn derbyn gwybodaeth ddigonol a/neu briodol ynghylch gofal a thriniaeth eu hanwyliaid gyda gweithwyr proffesiynol yn aml yn dweud mai 'cyfrinachedd' yw'r rheswm am hyn.
- Mae gofalwyr pobl sydd ag afiechyd meddwl difrifol yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu hesgeuluso neu'u hanwybyddu gan weithwyr iechyd a gofal proffesiynol, a hynny i'r gofal a thriniaeth sy'n cael eu darparu gan wasanaethau statudol. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd gofalwr neu aelod o'r teulu yn dweud wrth weithiwr proffesiynol bod yr unigolyn yn dangos symptomau ei fod ar fin cael ail bwl o salwch.
- Mae llawer o ofalwyr a theuluoedd am dderbyn gwybodaeth well am y math o afiechyd meddwl ac i gael mwy o gyfleoedd i ddysgu am sut i ddelio gyda symptomau person yn hytrach na bod rhywun yn cysylltu gyda hwy pan fydd argyfwng yn datblygu.
- Mae gofalwyr yn aml yn siarad am y ffaith eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael chwarae digon o rôl o ran gofal a thriniaeth y person y maent yn gofalu amdano tra eu bod yn gofalu amdanynt tra yn yr ysbyty; eto, maent yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a'u hesgeuluso.
- Mae gofalwyr yn aml yn teimlo nad oes neb yn cyfathrebu neu'n siarad gyda hwy pan fydd y person yn gadael yr ysbyty. Nid oes unrhyw drafodaeth ynghylch y broses ac unrhyw sgil-ffeithiau neu beryglon sydd ynghlwm wrth y broses.
- Efallai bod y symptomau sydd gan berson ag afiechyd meddwl difrifol o bosib yn episodig, sydd yn golygu y byddant yn iawn am rhan helaeth o'r amser. Fel arfer, gofalwr neu aelod o'r teulu fydd yn sylwi bod y person yn dechrau mynd yn sâl ac angen cymorth, gofal a thriniaeth proffesiynol.

Sleid 17

Nodiadau'r Hwylusydd:

Dylid gwahodd yr unigolion i ystyried y materion sydd wedi eu nodi yn y papur trafod/briffio, y tabl sydd yn dangos y 25 blaenoriaeth a'r siart fflip sydd yn amlygu rhai o'r materion a drafodwyd yn y clipiau fideo – a dylid eu trafod i weld sut ydynt yn berthnasol i'r Ddeddf a sut y mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â hwy.




Trafodaeth

- Sut y mae'r Ddeddf yn medru mynd i'r afael â'r pryderon a'r materion yma mewn modd ymarferol?

Sleid 18

Nodiadau'r Hwylusydd:

Bydd y sleidiau canlynol yn manylu rhannau penodol o'r Ddeddf ac yn amlinellu sut y maent yn medru helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion a'r pryderon sydd wedi codi.



Sgil-effaith y ddeddf


Bydd y sleidiau canlynol yn trafod:

- Sgil-efeithiau'r Ddeddf
- Sut y mae'n medru mynd i'r afael â'r anghenion pryderon a materion yma?
- Sut y mae'n berthnasol i ofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl

Sleid 19

Nodiadau'r Hwylusydd:

Mae Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (Integrated Medium Term Plans) yn cael eu datblygu gan fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau a mudiadau cymorth y GIG. Dyma'r dogfennau cynllunio sefydliadol allweddol ac maent yn gynlluniau 3 blynedd sydd yn cael eu hadnewyddu neu eu hail-ysgrifennu'n flynyddol. Yn eiddo i bob un corff/mudiad, bydd y cynlluniau yn amlinellu sut y bydd adnoddau yn cael eu defnyddio er mwyn diwallu anghenion iechyd a llesiant y gofalwyr a gwella eu canlyniadau iechyd. Maent yn rhoi cyfle i amlinellu pa wasanaethau neu fentrau ymyrraeth gynnar, ynghyd â'r gwasanaethau eraill, sydd ar gael o fewn ardal leol i ofalwyr.




Rhan 2 o'r Ddeddf – Asesiad Anghenion Poblogaeth ar gyfer Gofalwyr

- Yn gyrru newidiadau a ffocws ar ddulliau ataliol
- Anghenion iechyd a lles wedi eu nodi mewn Cynllun Tymor Byr Integredig sydd wedi eu llunio gan fyrddau iechyd
- Ymyrraeth cynnar wedi ei dargedu ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed ac mewn risg uchel
- Cyfle i amlinellu cynlluniau ar gyfer ymyrraeth cynnar wedi ei dargedu ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed ac mewn risg uchel

Sleid 20

Rhan 3 o'r Ddeddf – Asesiad Gofalwr Unigol



- Dylai fod yn gymesur i anghenion yr unigolyn
- Yn medru cynnwys o bosib sut y bydd y gofalwr yn cael ei gefnogi yn ei rôl ynghyd ag unrhyw gymorth uniongyrchol a fydd angen ar gyfer ei iechyd a'i les yntau
- Yn medru amlinellu o bosib sut y bydd gweithwyr proffesiynol yn ymgysylltu gyda gofalwr/teuluoedd yn gyson am gofal a thriniaeth y person y maent yn gofalu amdano – a'r broses/protocol er mwyn gwneud hyn

Nodiadau'r Hwylusydd:

Rhannwch **daflen (4)**: *'Canllaw i asesiadau ar gyfer gofalwyr'*

Rhaid i awdurdod lleol:

- Asesu pa mor abl yw'r gofalwr, a pha mor abl y bydd y gofalwr, wrth geisio darparu gofal i'r person y mae'n gofalu amdano neu'n bwriadu gofalu amdano
- Asesu pa mor fodlon yw'r gofalwr, a phu'n ai bydd dal yn fodlon, i wneud hyn
- I ofalwr sy'n oedolyn, dylid ceisio canfod y canlyniadau y mae'r gofalwr am eu cyflawni
- I ofalwr sy'n blentyn, dylid ceisio canfod y canlyniadau y mae'r gofalwr am eu cyflawni, a hynny wrth feddwl am yr hyn sydd yn briodol o ran oedran a dealltwriaeth y gofalwr a dymuniadau'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhianta am y gofalwr o ran hyrwyddo ei lesiant

Sleid 21

Rhan 4 o'r Ddeddf – Cynlluniau Cymorth i Ofalwyr



Yr hyn y mae'n bosib ei gynnwys yng Nghynlluniau Cymorth y gofalwyr y bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd meddwl:

- Seibiannau i ofalwyr
- Hyfforddiant i ofalwyr e.e.

Adeiladu hyder	Sut i ymgysylltu gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol	Gwasanaethau Therapi Teuluol
Mathau eraill o therapïau siarad	Mathau o gyflyrau iechyd meddwl	Meddyginiaeth iechyd meddwl a sgil-efeithiau

Sleid 22

 **Cyngor Gofal Cymru**
Care Council for Wales
Hydwr mewn Gofal - Confidence in Care

hafal

 Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

EGWYL



Deall y Ddeddf

Sleid 23

Crynodeb o'r prif hawliau i ofalwyr o dan y Ddeddf a dyletswyddau ar wasanaethau statudol



Deall y Ddeddf

Nodiadau'r Hwylusydd:

Esboniwrth wrth yr unigolion bod y rhan fwyaf o'r hyn sydd wedi eu cynnwys yn y sleidiau canlynol eisoes wedi ei nodi a'i drafod o fewn y gweithdy ac yn cynrychioli crynodeb o'r prif bwyntiau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â gofalwyr. Mae'r 6 sleid nesaf yn crynhoi ac yn cadarnhau llawer o'r hyn sydd wedi ei ddysgu a'i drafod hyd yma.

Rhan 2 o'r ddeddf



Yn datgan fod:

- Rhaid hyrwyddo lles y gofawyr hynny sydd angen cymorth
- Rhaid gwrandao ar farn, dymuniadau a theimladau gofawyr (a bod hynny'n rhesymol ymarferol)
- Rhaid parchu gofawyr a'u trin ag urddas
- Dylai gofawyr dderbyn y cymorth priodol er mwyn eu caniatáu i gymryd rhan mewn penderfyniadau sydd yn effeithio arnynt

Rhan 2 o'r Ddeddf - Dyletswyddau



Yn gosod y dyletswyddau yma ar wasanaethau statudol:


- Rhaid i Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad o'r canlyniadau lles sydd i'w cyflawni gan ofalwyr sydd angen cymorth
- Rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol asesu ar y cyd y nifer o ofalwyr sydd angen cymorth
- Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth er mwyn rhoi'r canlynol i ofalwyr:
 - Gwybodaeth a chynghor sy'n ymwneud â gofal a chymorth
 - Cymorth o ran cael mynediad at ofal a chymorth

Rhan 3 o'r Ddeddf



Yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion gofawyr am gymorth:


- Yn yr achosion hynny lle y mae'n ymddangos bod gofawyr angen cymorth
- Os ydynt angen cymorth – rhaid cadarnhau beth yw'r anghenion hynny nawr neu'n debygol o fod yn y dyfodol


Deall y Ddeddf

Asesiadau Anghenion Gofalwyr

Wrth gynnal asesiad gofalwyr, rhaid i awdurdod lleol:


- Asesu pa mor abl yw'r gofalwr, a pha mor abl y bydd yn parhau, i fod er mwyn medru darparu gofal i'r person y mae'n gofalu amdano
- Asesu pa mor fodlon, a pha mor fodlon y bydd yn y dyfodol, i ddarparu gofal
- Ceisio canfod y canlyniadau y mae'r gofalwr sy'n oedolyn am gyflawni
- Asesu os bydd darparu cymorth, gwasanaethau ataliol neu wybodaeth, cyngor yn helpu - ac i ba raddau y bydd yn parhau i helpu - i gyflawni'r canlyniadau hynny neu'n diwallu anghenion


Deall y Ddeddf

Asesiadau Anghenion Gofalwyr

Wrth gynnal asesiad anghenion, rhaid i awdurdod lleol ystyried:

- P'un ai yw'r gofalwr yn gweithio neu'n dymuno gweithio
- P'un ai bod y gofalwr yn cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, hyfforddiant neu hamdden
- Os yw'r gofalwr yn blentyn, rhaid ystyried—
 - i. Anghenion datblygu'r plentyn, a
 - ii. P'un ai yw'n briodol i'r plentyn i ddarparu'r gofal (neu unrhyw ofal) yn sgil yr anghenion hynny


Deall y Ddeddf

Rhan 4 o'r Ddeddf Diwallu Anghenion Gofalwyr

- Rhaid cadarnhau a fydd darparu cymorth yn helpu i gynorthwyo'r gofalwr i gyflawni ei ganlyniadau personol
- Os oes 'angen cymwys' gan y gofalwr i dderbyn cymorth, rhaid trefnu cynllun cymorth
- Yn meddu ar yr hawl i dderbyn taliadau uniongyrchol er mwyn trefnu cymorth ei hunan

Sleid 30

Nodiadau'r Hwylusydd:

Esboniwrth yr unigolion y bydd rhan olaf y gweithdy yn cysylltu'r Ddeddf gyda dau brif ddarn o ddeddfwriaeth iechyd meddwl yng Nghymru:

- Deddf Iechyd 1983
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Dolenni at Ddeddfwriaeth Iechyd Meddwl



Efallai y bydd hawliau gan ofalwyr o dan:

Deddf Iechyd 1983

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Sleidiau 31-33

Deddf Iechyd Meddwl 1983



Pwrpas y Ddedfwriaeth:

- Y prif bwrpas yw sicrhau bod pobl ag anhwylderau iechyd meddwl difrifol yn cael eu trin – a hynny heb eu caniatâd os oes angen er mwyn eu hatal rhag niweidio eu hunain neu eraill
- Derbyn, gofalu, a thrin pobl sydd ag anhwylderau iechyd meddwl
- Amlinellu'r prosesau a'r gweithdrefnau diogelwch ar gyfer cleifion.

Egwyddorion Arweiniol



Bydd y 2 dudalen yma yn nodi egwyddorion arweiniol y ddeddfwriaeth:



Gosod lles a diogelwch wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau



Adfer annibyniaeth pryd bynnag sy'n bosib



Chwarae rhan yng nghynllunio a datblygu eu gofal



Dylai ymarferwyr barchu anghenion a gwerthoedd amrywiol cleifion



Rhaid ystyried barn ac anghenion teuluoedd a gofalwyr

Egwyddorion Arweiniol (Parhâd.)



Dylid rhoi triniaeth briodol i unrhyw un sy'n cael ei gadw o dan y Ddeddf



Rhaid i asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac eraill weithio gyda'i gilydd er mwyn darparu gwasanaethau sydd yn effeithiol, hygyrch ac o safon uchel



Dylai staff feddu ar sgiliau a gwybodaeth ddigonol o'r Ddeddf er mwyn cefnogi cleifion



Dylid cael mecanweithiau clir er mwyn sicrhau cymorth arbenigol i'r sawl sydd ag anghenion ychwanegol

Nodiadau'r Hwylusydd:

Mae Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl diwygiedig ar gyfer Cymru yn cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ôl y deunyddiau dysgu yma. Dylai cyfranogwyr ddod yn gyfarwydd efo'r cod ymarfer diwygiedig.

Deddf Iechyd Meddwl 1983



Perthynas Agosaf

Mae'r term 'Perthynas Agosaf' yn cael ei ddefnyddio yn aml mewn deddfwriaeth iechyd meddwl er mwyn cyfeirio at y person sydd agosaf at y claf sydd yn cael ei asesu, neu wrthi'n cael ei asesu, i weld a ddylid ei gadw yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

- Efallai fod rôl sylweddol gan y Perthynas Agosaf o ran gofalu am y claf ond nid oes rhaid iddo ef/hi fod yn berthynas agosaf – yn llythrennol.
- Mae rôl bwysig gan 'Berthynas Agosaf' o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl o ran amddiffyn y claf.

Deddf Iechyd Meddwl 1983



- Nid yw 'Perthynas Claf' o reidrwydd yn ofalwr iddynt neu'n berthynas agosaf iddynt yn llythrennol.
- Mae'r 'Perthynas Agosaf' wedi ei amlinellu yn Adran 26 o'r Deddf Iechyd Meddwl – fel arfer, dyma'r person sydd uchaf yn y rhestr isod:

Gŵr, gwraig
neu partner
sifil

Mab neu
ferch

Tad neu fam

Brawd neu
chwaer

Dadcu neu
famgu

Ewythr neu
fodryb

Nai neu Nith

- Os oes yna ddau berson posib ar yr un lefel, yr hynaf o'r ddau fydd y Perthynas Agosaf (pa bynnag ryw)

Deddf Iechyd Meddwl 1983



Mae rôl bwysig gan y 'Perthynas Agosaf' ac mae'n meddu ar hawliau cyfreithiol penodol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl:

- Dylai'r 'Perthynas Agosaf' gael gwybod, ei ymgynghori a chyfrannu at ystod o benderfyniadau allweddol am ofal a thriniaeth y claf.
- Mae'r 'Perthynas Agosaf' hefyd yn meddu ar sawl rôl gyfreithiol penodol yn y Ddeddf sy'n ymwneud â chyflwyno'r claf i'r ysbyty, asesu'r claf, cadw'r claf yno a'i rhyddhau o'r ysbyty.

Sleidiau 37-39

Nodiadau'r Hwylusydd:

Cyfeiriwch unigolion at Adran 5 o God Ymarfer Cymru ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 sydd yn rhoi manylion llawn y rôl 'Perthynas Agosaf'. Dyma God Ymarfer i Gymru a ddiwygiwyd yn 2016.

Deddf Iechyd Meddwl 1983



Rôl y 'Perthynas Agosaf'

- Mae rôl y Perthynas Agosaf o dan y Ddeddf yn bwysig ac yno i amddiffyn y cleifion.
- Mae Adran 26 o'r Ddeddf yn diffinio 'perthynas agosaf' fel rhywun sydd yn medru chwarae'r rôl.
- Mae dyletswyddau'r 'Perthynas Agosaf' yn medru newid, a hynny'n ddibynnol ar y rhan o'r Ddeddf a ddefnyddir i gadw'r claf yn yr ysbyty.
- Nid oes hawl gwneud cais i gyflwyno'r claf ar gyfer triniaeth yn yr ysbyty oni bai bod rhywun yn ymgynghori gyda'r 'Perthynas Agosaf'

Gofalwyr a'r Ddeddf Iechyd Meddwl



- Yn wahanol i'r 'Perthynas Agosaf', nid oes hawliau ffurfiol na phenodol gan ofalwyr yn sgil y Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Fodd bynnag, mae pwysigrwydd gofalwyr yn cael ei gydnabod yn Nghod Ymarfer i Gymru ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Cod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl



- Yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut y dylai gweithwyr proffesiynol gyfathrebu a chynnwys gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am y claf
- Yn rhoi canllawiau ynglŷn â sut y dylid rhoi gwybod i ofalwyr a rhoi'r cyfle iddynt chwarae rhan yn y broses o asesu, cynllunio gofal, trin a'r broses o rhyddhau claf o'r ysbyty a'r gofal a gaiff wedi hynny.
- Yn pwysleisio'r angen i ystyried anghenion y gofalwyr wrth iddynt ymgymryd â'r rôl gofalu, gan gynnwys eu hangen am wybodaeth, hyfforddiant a chymorth a rhoi ystyriaeth hefyd i'r peryglon a'r pwysau y maent yn wynebu o bosib

Mesur Iechyd Meddwl Cymru 2010



Mae'r Mesur yn gyfraith sydd wedi ei llunio gan Lywodraeth Cymru ac mae'n ddeddfwriaeth gynradd

Roedd y Mesur wedi gwneud newidiadau deddfwriaethol i'r broses o asesu a chynllunio gofal a thriniaeth pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl

Trosolwg o'r Mesur



Rhennir y Mesur i 6 rhan

Rhan 1 Gwasanaethau cymorth iechyd meddwl cynradd lleol

Rhan 2 Cydlynu cynllun gofal a thriniaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd

Rhan 3 Asesiadau o gyn ddefnyddwyr o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd

Rhan 4 Eiriolaeth Iechyd Meddwl


Rhan 5 Cyffredinol

Rhan 6 Amrywiol ac Atodol

Rhan 2-Cydlynu cynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd



- Mae dyletswydd ar ddarparwyr iechyd meddwl i apwyntio cydlynnydd gofal ar gyfer claf perthnasol cyn gynted ag sy'n rhesymol.
- Mae cleifion perthnasol yn cynnwys y rhai hynny sydd yn derbyn gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd beth bynnag yw eu hoedran.
- Dylai darparwyr gwasanaeth sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer unigolyn wedi eu cydlynu.
- Bydd cydlynwyr gofal yn cytuno ar ganlyniadau ac yn llunio cynllun gofal a thriniaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau yma.
- Mae rheoliadau pellach yn nodi pa mor aml y dylid eu hadolygu a phwy y dylai'r cydlynwyr gofal ymgynghori â hwy ynghyd â rhoi copïau o'r cynllun gofal a thriniaeth iddynt


Deall y Ddeddf

Mesur Iechyd Meddwl Cymru (2010)

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar y Cydlynnydd Gofal i weithio ar y cyd gyda'r person sydd yn derbyn y gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn:


- a) Cytuno ar y canlyniadau y mae'r gwasanaethau iechyd meddwl fod eu cyflawni
- b) Cytuno ar Gynllun Gofal a Thriniaeth;
- c) adolygu, ac os oes angen, diwygio'r cynllun

Nodiadau'r Hwylusydd:

Cyfeiriwch unigolion at baragraffau 97 i 100 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn datgan:

Para. 97: 'Efallai y bydd y broses o baratoi, adolygu neu ddiwygio cynllun gofal a chymorth yn gysylltiedig â'r broses o baratoi, adolygu neu ddiwygio cynlluniau gan gyrff eraill ar gyfer y person dan sylw. Gall awdurdodau lleol gydgysylltu'r gwaith o baratoi ac adolygu cynlluniau os yw corff arall yn paratoi cynllun perthnasol yr un pryd.'

Para. 98: 'Os yw dyletswyddau i baratoi cynlluniau a ragnodir yn genedlaethol neu'n gyfreithiol (er enghraifft, Cynllun Gofal a Thriniaeth a ragnodir o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010...) yn gorgyffwrdd, ac os oes yna gynllun sy'n bodloni gofynion cynllun gofal a chymorth, gall y gwaith o baratoi, darparu ac adolygu'r cynllun hwnnw gael ei ystyried fel y ffordd y gall yr awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau i baratoi, darparu ac adolygu cynllun gofal a chymorth.'


Deall y Ddeddf

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

- Mae'r rheoliadau ar gyfer rhan 2 o'r Ddeddf yn golygu bod cydlynwyr gofal angen cymryd pob cam ymarferol posib i ymgynghori gyda rhieni ac unrhyw ofalwr/wyr sydd yn meddu ar berthynas ofalu gyda'r person sydd yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod o broses o baratoi neu adolygu'r cynllun gofal a thriniaeth
- Cyn cynnal unrhyw ymgynghoriad o'r fath, mae angen i'r cydlynnydd gofal ystyried barn y person sydd yn derbyn y gwasanaethau iechyd meddwl ynghylch a ddylid ymgynghori gyda'r riant neu'r gofalwr

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010



- Efallai y bydd y person sydd yn derbyn y gwasanaethau iechyd meddwl yn dymuno enwebu teulu, ffrindiau, a/neu gofalwyr er mwyn helpu i gyflenwi'r Cynllun Gofal a Thriniaeth; mae'r cefnogwyr yma yn medru chwarae rôl hanfodol wrth gynnig cymorth ymarferol i gyflenwi'r Cynllun Gofal a Thriniaeth.
- Mae'r Mesur yn cydnabod bod Gofalwyr yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi person sydd yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl ac mewn achosion lle y penderfynir na ddylid rhannu copïau o'r cynllun gofal gyda rhieni neu unigolion; mae'n arfer da i gofnodi'r rhesymau am y penderfyniad hwn

Gofalwyr



- Am fwy o wybodaeth am wasanaethau'r trydydd sector ar gyfer gofalwyr, ewch i'r gwefannau canlynol os gwelwch yn dda:
- <http://www.carersuk.org/wales>
- <https://www.carers.org/wales>
- <http://www.carersuk.org/help-and-advice/get-resources/carers-rights-guide?qclid=CL2844aIncsCFaoy0wodhyoMyQ>
- <http://www.hafal.org/services/carers/>



Deall y Ddeddf



Getting in on the Act

Adran 4: Adnoddau Fideo

Dangoswch y fideos canlynol i'r hyfforddeion a hwyluso trafodaeth:

Gofalwyr

<https://www.youtube.com/watch?v=rs5Q30Lfpwl&feature=youtu.be>

Frank

<https://www.youtube.com/watch?v=nPu95Mx4324&feature=youtu.be>

Adran 5: Rhaglen Hyfforddi Unigol (hunan-ddysgu)

Dylai'r adnoddau canlynol cael eu defnyddio fel taflenni yn ystod y cyflwyniad a'i drafod fel grŵp.

(Mae'r taflenni yn dechrau ar y tudalennau canlynol ac maent ar gael mewn ffurf PDF ac fel dogfennau ar wahân.)

I lawrlwytho bob dogfen cliciwch ar y ddolenni canlynol:

[Taflen 1 - Fframwaith ar gyfer trin personau hŷ](#)

[Taflen 2 - Papur Cefndir a Briffio ar gyfer Gofalu am Rywun sydd ag Afiechyd Meddwl](#)

[Taflen 3 - Blaenoriaethau fel y Nodwyd gan Grŵp o Ofalwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Hafal ar 5 Tachwedd 2015](#)

[Taflen 4 - Canllaw i Aseidiadau ar gyfer Gofalwyr](#)

hafal



Cyngor Gofal Cymru
Care Council for Wales

Hyder mewn Gofal - Confidence in Care



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Udalen Way

Egwyddorion y Cenedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn

CAFODD EGWYDDORION Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR GYFER PERSONAU HŷN EU MABWYSIADU AR 16 RHAGFYR 1991. CAFODD LLYWODRAETHAU EU HANNOG I'W HYMGORFFORI YN EU RHAGLENNI CENEDLAETHOL PRYD BYNNAG Y BYDDAI MODD. MAE DYLETYSWYDD AR Y COMISIYNYDD I BOBL HŷN YNG NGHYMURU I ROI YSTYRIAETH I'R EGWYDDORION YMA A DYLAI POB UN CORFF EU DEFNYDDIO FEL FFRAMWAITH.

Caiff llywodraethau eu hannog i'w hymgorffori yn eu rhaglenni cenedlaethol pryd bynnag y mae modd:

Annibyniaeth

1. Dylai personau hŷn gael mynediad at fwyd, dŵr, cysgod, dillad a gofal iechyd digonol a hynny drwy ddarpariaeth ar gyfer incwm, cymorth y teulu a'r gymuned a hunangymorth.
2. Dylai personau hŷn gael y cyfle i weithio neu i gael mynediad at gyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm.
3. Dylai personau hŷn gael cyfranogi wrth benderfynu pa bryd i dynnu'n ôl o'r gweithlu a pha mor gyflym.
4. Dylai personau hŷn gael mynediad at raglenni priodol o addysg a hyfforddiant.
5. Dylai personau hŷn gael byw mewn amgylcheddau sy'n ddiogel ac a all gael eu haddasu at ddewisiadau personol a newidiadau mewn galluedd.
6. Dylai personau hŷn allu byw gartref cyn hired ag y bo modd.

Cyfranogi

7. Dylai personau hŷn barhau i gael eu hintegreiddio yn y gymdeithas, cymryd rhan weithgar wrth ffurfio a gweithredu polisiau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu llesiant a rhannu eu gwybodaeth a'u medrau â'r cenedlaethau iau.
8. Dylai personau hŷn gael chwilio am gyfleoedd a datblygu cyfleoedd i wasanaethu'r gymuned ac i wasanaethu fel gwirfoddolwyr mewn safleoedd sy'n briodol i'w diddordebau a'u galluoedd.
9. Dylai personau hŷn gael ffurfio mudiadau neu gymdeithasau i bersonau hŷn.

Gofal

10. Dylai personau hŷn gael manteisio ar ofal ac amddiffyniad y teulu a'r gymuned yn unol â system pob gymdeithas o werthoedd diwylliannol.
11. Dylai personau hŷn gael mynediad at ofal iechyd i'w helpu i gadw neu adennill y lefel orau posibl o lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol ac i atal neu ohirio dechreuad salwch.
12. Dylai personau hŷn gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol i wella'u hymreolaeth, eu hamddiffyniad a'u gofal.
13. Dylai personau hŷn gael defnyddio lefelau priodol o ofal sefydliadol sy'n darparu amddiffyniad, adsefydliad ac ysgogiad cymdeithasol a meddyliol a hynny mewn amgylchedd trugarog a diogel.
14. Dylai personau hŷn gael mwynhau hawliau dynol a rhyddidau sylfaenol pan fyddant yn byw mewn unrhyw gyfleuster ar gyfer cysgod, gofal neu driniaeth, gan gynnwys parch llawn i'w hurddas, eu credoau, eu hanghenion a'u preifatrwydd aci'w hawl i wneud penderfyniadau am eu gofal ac am ansawdd eu bywydau.

Hunangyflawniad

15. Dylai personau hŷn gael dilyn cyfleoedd i ddatblygu eu potensial i'r eithaf.
16. Dylai personau hŷn gael mynediad at adnoddau addysgol, diwylliannol, ysbrydol ac adloniadol y gymdeithas.

Urddas

17. Dylai personau hŷn gael byw mewn urddas a diogelwch a bod yn rhydd rhag cael eu hecsbloetio a'u cam drin yn gorfforol neu'n feddyliol.
18. Dylai personau hŷn gael eu trin yn deg ni waeth beth fo'u hoed, eu rhywedd, eu cefndir hiliol neu ethnig, eu statws anabledd neu eu statws arall, a chael eu gwerthfawrogi yn annibynnol ar eu cyfraniad economaidd.

1 Gofalu am rywun sydd â phroblem iechyd meddwl neu afiechyd meddwl

Nid ydym yn sicr sawl un o'r 370,000 o ofalwyr yng Nghymru sydd yn gofalu am rywun â chyflwr iechyd meddwl. Pe bawn yn defnyddio'r un ganran â'r hyn a ddefnyddiwyd mewn arolwg o gartrefi yn Lloegr, byddai'r nifer o ofalwyr yng Nghymru sydd yn gofalu am rywun â phroblem iechyd meddwl tua 48,000.

Mae rhagrith a diffyg dealltwriaeth yn aml yn nodweddu afiechyd meddwl ac mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn wynebu stigma ac anffafiaeth yn gyson. I lawer, mae'n parhau yn afiechyd cudd ac efallai nad yw rhai teuluoedd am i'r gymuned neu eu teuluoedd estynedig i wybod am gyflwr iechyd meddwl eu hanwyliaid. Mae'r adran nesaf yn amlygu rhai o'r prif bwyntiau a materion allweddol sydd yn unigryw i ofalwyr y bobl hynny sydd ag afiechyd meddwl.

2 Natur a nodweddion byw ag afiechyd meddwl difrifol

Mae pobl sydd yn byw ag afiechyd meddwl difrifol (fel Sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol neu unrhyw fath arall o afiechyd seicotig) yn hynod agored i niwed ac fel arfer yn meddu ar anghenion cymhleth ac yn medru arwain bywydau anhrefnus iawn. Fel arfer, y gofalwr ac aelodau'r teulu sydd yn gweld yr effaith y mae hyn yn ei gael ar y person y maent yn gofalu amdano o ddydd i ddydd a hwy fydd yn medru sylwi ar arwyddion bod y person yn gwaethygu ac angen cymorth, gofal a thriniaeth broffesiynol yn gyflym. Mae'r symptomau sydd yn cael eu profi gan y person ag afiechyd meddwl difrifol yn medru bod yn episodig, sydd yn golygu eu bod yn medru teimlo ac ymddangos yn dda am lawer o'r amser.

Afiechyd meddwl yw'r unig afiechyd sydd yn medru arwain at berson yn cael ei gadw yn yr ysbyty, derbyn triniaeth orfodol yn erbyn ei ewyllys (fel sydd wedi ei ddiwygio gan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983). Mae hyn yn medru arwain at densiynau o fewn teuluoedd ac anghytundeb rhwng y person â'r afiechyd meddwl a'i ofalwr/teulu.

I rai pobl, y bygythiad neu'r peryg o gael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl sydd yn eu harwain i ymddwyn yn wahanol pan eu bod yn cwrdd â gweithwyr iechyd a/neu gofal cymdeithasol proffesiynol. Yn aml, y gofalwyr sydd wir yn gweld sut y mae'r person go iawn.

Mae yna stigma ac anffafiaeth penodol sydd yn ymwneud ag afiechyd meddwl. Weithiau, mae hyn yn cael ei waethygu pan fydd yr heddlu a/neu wasanaethau cyfiawnder troseddol eraill yn dod yn rhan o'r broses; yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cael ei ystyried gan eraill yn rhyfedd/bygythiol; ac weithiau, ceir linc yma i gorddefnydd neu gamddefnydd o gyffuriau neu alcohol.

Pan fydd person yn byw ag afiechyd seicotig yn dechrau mynd yn sâl, efallai y byddant yn ymddangos yn rithiol, yn dangos arwyddion o baranoia neu'n profi rhithdybiaethau. Y gofalwyr sydd fel arfer agosaf at yr hyn sy'n digwydd ac mae'n medru bod yn ffocws y rhithdybiaethau yma gan mai hwy yw'r person agosaf atynt.

Fel arfer, mae'r gofalwr/teulu yn cael eu gadael i geisio cefnogi'r unigolyn ar ben eu hunain yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae hyn yn medru arwain at ymdeimlad o densiwn, gwrthdaro ac euogrwydd o fewn teuluoedd. Mae hon yn agwedd unigryw a phenodol o bobl a theuluoedd sydd yn byw ag afiechyd meddwl.

3 Yr angen am gymorth iechyd meddwl arbenigol

Mae pobl sydd yn byw ag afiechyd meddwl difrifol a'u gofalwyr neu teuluoedd angen gofal, cymorth a thriniaeth arbenigol, yn sgil natur a chymhlethdod yr afiechyd ynghyd â'r goblygiadau cyfreithiol sy'n bosib.

Mae llawer o ofalwyr sydd yn gofalu am bobl sydd ag afiechyd meddwl difrifol yn 'Perthynas Agosaf' iddynt hefyd ac o'r herwydd yn meddu ar hawliau a phwerau penodol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, e.e. rhaid ymgynghori â hwy, mae hawl ganddynt ofyn am asesiad, gwneud cais bod yr unigolyn yn cael ei ryddhau o'r ysbyty, chwilio am gymorth gan eiriolwyr annibynnol, ayyb.

Yn aml, mae gofalwyr y bobl hynny sydd yn byw ag afiechyd meddwl difrifol yn dweud nad ydynt yn cael digon o wybodaeth am ofal a thriniaeth eu hanwyliaid gyda gweithwyr proffesiynol yn aml yn dweud mai 'cyfrinachedd' yw'r rheswm am hyn. *(Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn caniatáu i weithwyr proffesiynol i ymgynghori gyda gofalwyr yn erbyn ewylllys y claf os yw hyn er budd y person dan sylw).*

Mae defnydd o gyfarwyddiadau a datganiadau datblygedig¹ o bosib yn briodol ar gyfer diogelu a hyrwyddo dymuniadau, teimladau, buddiannau ac iechyd yr anwilyd. Maent yn debygol o gael lle pwysig yng ngofal a thriniaeth y person sydd yn disgyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

¹ Mae cyfarwyddiadau a datganiadau datblygedig yn ddogfennau sydd yn cael eu llunio gan unigolion sydd am fynegi eu dymuniadau i unrhyw ofal neu driniaeth feddygol y bydd rhaid iddynt dderbyn yn y dyfodol, a hynny pan na fyddant yn medru mynegi hyn eu hunain.

Yn gyffredinol, byddai'n well gan ofalwyr y bobl hynny sydd yn byw ag afiechyd meddwl difrifol i ymgysylltu'n uniongyrchol gyda'r person y maent yn gofalu amdano, ac nid ydynt yn gwahaniaethu rhwng anghenion gofalwyr ac anghenion pobl sydd yn derbyn y gofal.

Mae'n debygol mai ond gweithwyr cymorth sydd yn gweithio o fewn maes iechyd meddwl fydd yn datblygu'r wybodaeth, yr arbenigedd a'n medru cael mynediad at yr adnoddau er mwyn darparu cymorth effeithiol pan fydd problemau cymhleth ac anodd yn dod i'r amlwg o safbwynt y gofalwr a'r person sydd yn derbyn y gofal.

Mae gwasanaethau cyffredinol yn aml yn "cyfeirio" pobl at wasanaethau eraill, yn hytrach na darparu cymorth cynhwysfawr. Mae gweithwyr cymorth iechyd meddwl yn medru neilltuo mwy o adnoddau a gwybodaeth er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion sydd yn codi.

Mae'n hynod bwysig sicrhau fod asesiad o anghenion gofalwyr (asesiad gofalwr)² yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael yn hawdd er mwyn helpu atal dirywiad y person sy'n derbyn y gofal ynghyd â'i helpu rhag gorfod mynd i'r ysbyty.

Yn aml, nid yw gofalwyr yn cysylltu ag unrhyw un tan fod yna sefyllfa sydd yn codi yn golygu bod angen gwasanaethau iechyd meddwl statudol. Mae hyn yn golygu bod angen ymateb cyflym ac mae hyn yn llai tebygol o fod ar gael o wasanaeth gofalu cyffredinol gan nad oes dealltwriaeth fanwl ganddynt o ddeddfwriaeth a pholisïau iechyd meddwl.

Mae buddsoddi mewn gwasanaethau i ofalwyr iechyd meddwl yn medru arwain at fanteision economaidd hirdymor (ac weithiau byrdymor) o safbwynt iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae gwasanaethau cymorth iechyd meddwl arbenigol yn medru cynnig cymorth i ofalwyr ac - mewn modd anuniongyrchol - i'r sawl sy'n derbyn y gofal, ac mae hyn yn medru osgoi gorfod rheoli argyfwng. Er enghraifft, pan fydd yna arwyddion bod ail bwl o salwch ar fin digwydd, mae staff o'r trydydd sector sydd â phrofiad/ymwybyddiaeth o iechyd meddwl yn medru cefnogi gofalwyr i wneud achos cryf er mwyn annog y gwasanaethau statudol i ymyrryd ac mae hyn yn medru osgoi cyfnod costus o'r claf yn aros yn yr ysbyty.

² Mae asesiad gofalwr yn ffordd o adnabod eich anghenion fel gofalwr. Mae'n bwrw golwg ar eich rôl fel gofalwr: sut y mae bod yn ofalwr yn effeithio arnoch, faint o ofalu y mae modd i chi wneud (tra dal yn ymgymryd â gweithgareddau eraill y tu hwnt i'ch rôl gofalu) a pha help sydd angen arnoch o bosib.

Blaenoriaethau fel y nodwyd gan grŵp o ofalwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Hafal ar 5 Tachwedd 2015

Thema'r Gweithdy	2 Prif Flaenoriaeth		Blaenoriaethau Eraill		
<p>Cynnwys gofalwyr a theuluoedd, gwrando arnynt a materion yn ymwneud â chyfrinachedd</p>	<p>Rhaid cael trafodaeth rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fydd yna arwyddion cynnar bod cyflwr unigolyn sy'n derbyn gofal yn gwaethygu. Rhaid cymryd barn a phryderon gofalwyr o ddifri' – yn enwedig panfydd arwyddion argyfwng i'w gweld.</p>	<p>Mae angen sefydlu triogl o ofal rhwng y sawl sy'n derbyn y gofal, y gofalwr, gweithwyr iechyd /gofal cymdeithasol sydd at ddechrau'r driniaeth er mwyn sefydlu sut y dylid trin, cynorthwyo a gofalu am y person, y rolau a chyfrifoldebau, ffiniau, ayyb. Mae angen i ofalwyr chwarae mwy o ran yn y broses o gynllunio a gofalu am eu hanwyliaid.</p>	<p>Mae angen mwy o hyblygrwydd o ran trefnu cyfarfod ac apwyntiadau a darparu mwy o gymorth i helpu gofalwyr i fynychu cyfarfodydd ac apwyntiadau.</p>	<p>Dylid sicrhau caniatâd i rannu gwybodaeth drwy drydydd parti y mae modd ymddiried ynddynt a dylid cytuno hyn ar ddechrau'r driniaeth.</p>	<p>Dylai'r geiriad mewn Codau Ymarfer, canllawiau a deddfwriaeth eraill fynd ati i ddefnyddio'r derminoleg y dylai gweithwyr proffesiynol 'orfod' gweithio gyda gofalwyr, yn hytrach na defnyddio'r term 'lle bo'n bosib'</p>
<p>Angen rhoi cyngor a hyfforddiant ar faterion sydd yn effeithio ar anghenion gofalwyr i weithwyr iechyd proffesiynol ynghyd â gofalwyr</p>	<p>Mae gweithwyr iechyd proffesiynol angen hyfforddiant gorfodol a pharhaus sy'n ymwneud ag anghenion teuluoedd/gofalwyr a sut i ymgysylltu, eu cynnwys, ayyb</p>	<p>Dylai hyfforddiant i weithwyr iechyd bwysleisio'r pwysigrwydd o gydlynwyr gofal yn ymgysylltu gyda theuluoedd/gofalwyr i wrando ar eu hanghenion ac ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi</p>	<p>Mae staff y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol a gweithwyr proffesiynol eraill angen dealltwriaeth well o sgil-effaith rôl gofalwyr a dealltwriaeth dda o'r gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael gan gynnwys y rhai o'r trydydd sector</p>	<p>Mae gofalwyr angen derbyn hyfforddiant am y system iechyd meddwl, eu hawliau, cynlluniau i adael yr ysbyty, ayyb, a dylent chwarae rôl yn datblygu a darparu'r hyfforddiant hwn</p>	<p>Mae gweithwyr iechyd angen mwy o hyfforddiant am faterion gofalwyr, a dylai rhan o hyn gynnwys siarad gyda gofalwyr am eu profiadau</p>

Taflen 3

<p>Help a chymorth i ofalwyr</p>	<p>Mae angen mwy o eiriolwyr a hyrwyddwyr iechyd meddwl arbenigol er mwyn bod yn ddolen gyswllt rhwng y gofalwyr, gwasanaethau cymorth a mudiadau</p>	<p>Angen ymwybyddiaeth well o faterion iechyd meddwl o fewn gwasanaethau gofal cynradd, yn enwedig yng nghymorthfeydd Meddygon Teulu</p>	<p>Angen mwy o wasanaethau ymyrraeth ar gyfer y teulu cyfan a chynnwys teuluoedd wrth drafod anghenion gofalwyr</p>	<p>Rhaid i ofalwyr chwarae mwy o ran mewn adolygiadau ffurfiol sydd yn nodi cynnydd a phrognosis eu hanwyliaid</p>	<p>Angen ymgyrch gwrth-stigma (cyhoeddus) a hyfforddiant (mudiadau)</p>
<p>Hawliau gofalwyr</p>	<p>Rhaid i ofalwyr i gael mwy o wybodaeth am eu hawliau. 'Nid ydym yn gwybod beth yw ein hawliau!'</p>	<p>Nid yw gweithwyr proffesiynol yn gwrandao ar ofalwyr bob tro ac weithiau maent yn teimlo eu bod wedi tanseilio. Angen i ofalwyr fod yn ymwybodol o'u hawliau.</p>	<p>Angen eiriolwyr penodol i ofalwyr</p>	<p>Angen gwyntyllu ffyrdd o gynnal asesiadau pwrpasol i ofalwyr</p>	<p>Angen gwyntyllu'r posibilrwydd o apwyntiadau cyfun gyda gofalwyr a'r sawl sy'n derbyn y gofal pan yn cwrdd â gweithwyr proffesiynol</p>
<p>Materion eraill</p>	<p>Mae rhai gofalwyr angen therapïau siarad yn ogystal â clinics galw heibio i ofalwyr er mwyn derbyn cymorth, gwybodaeth a chynngor a chyfeirio at wasanaethau eraill.</p>	<p>Ystyriwch sefydlu llinell gymorth ar gyfer gofalwyr. Mae angen clir am gymorth a chynngor gwell, yn enwedig pwy i gysylltu â hwy adeg argyfwng.</p>	<p>Angen apwyntio hyrwyddwyr i ofalwyr</p>	<p>Canfod ffyrdd o gysylltu gyda gofalwyr yn well pan fydd cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty – asesiad ar gyfer tai addas</p>	<p>Angen gwasanaethau cynradd ac eilaidd gwell i ofalwyr, gan gynnwys therapïau siarad a chyswllt gwell rhwng Meddygon Teulu a gwasanaethau cymdeithasol.</p>

Asesiadau ar gyfer Gofalwyr

Dyletswydd

Mae awdurdod lleol yn gorfod cynnig asesiad i:

- Unrhyw ofalwr pan fydd hi'n ymddangos i awdurdod lleol fod y gofalwr hynny o bosib angen cymorth
- Rhaid i awdurdod lleol asesu a yw'r gofalwr angen cymorth (neu'n debygol o angen cymorth yn y dyfodol) – ac os felly, beth y mae'r anghenion yn debygol o fod

Mae'r ddyletswydd yn weithredol os yw'n ymddangos i awdurdod lleol bod gofalwr angen cymorth. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol beth bynnag yw barn yr awdurdod lleol am lefel y cymorth sydd angen ar y gofalwr neu'r adnoddau cyllidol sydd gan y gofalwr neu'r person sydd yn derbyn y gofal.

Beth sydd angen ei gynnwys mewn asesiad

Rhaid i'r asesiad gynnwys asesiad o ba mor abl a bodlon yw'r gofalwr i ddarparu gofal ac i barhau i ddarparu'r gofal, y canlyniadau y mae'r gofalwr am eu cyflawni o ran eu hunain, ac os yw'r gofalwr yn blentyn, y canlyniadau y mae'r person sydd â chyfrifoldeb rhianta am y plentyn am gyflawni ar ran y plentyn, a sut y gall cymorth, gwasanaethau ataliol neu ddarpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth helpu i gyflawni'r canlyniadau yma.

Rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys y gofalwr yn yr asesiad, ynghyd â'r person sydd yn mynd i dderbyn y gofal os yn bosib.

Rhaid i'r asesiad ystyried hefyd a yw'r gofalwr am weithio ac a ydynt yn cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol, hyfforddi neu hamdden.

Rhaid i'r asesiad hefyd gynnwys:

- Y canlyniadau y mae'r gofalwr am eu cyflawni
- Sut y gall cymorth, gwasanaethau ataliol neu darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth helpu i gyflawni'r canlyniadau
- Ystyried a yw'r gofalwr yn gweithio neu'n dymuno gweithio
- Ystyried a yw'r gofalwr yn cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol, hyfforddi neu hamdden.

Cymesuredd

Dylai'r ymarferydd gynnal asesiad sydd yn gymesur i anghenion ac amgylchiadau ond dylai asesiad o leiaf gofnodi'r data craidd ac ystyried pum elfen er mwyn pennu cymhwysedd. (Serch hynny, mae'r rheidrwydd i gwblhau'r data craidd ond yn berthnasol pan fydd anghenion unigolyn yn cael eu hystyried yn gymwys a bod angen o'r cynllun gofal a thriniaeth neu gynllun cymorth yn sgil hynny).

Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Bydd y broses asesu yn aml yn dechrau pan fydd person yn dechrau derbyn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth. Ni ddylid cyfyngu mynediad at asesiad drwy'r gwasanaeth yma'n unig.

Proses Asesu

Dylai'r broses asesu fod yn seiliedig ar yr egwyddor o gyd-gynhyrchu a sicrhau ei bod yn cynnwys perthynas lle y mae'r ymarferwyr ac unigolion yn rhannu'r pŵer o gynllunio a darparu cymorth gyda'i gilydd, a chydabod bod yr holl bartneriaid yn meddu ar rôl hanfodol er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau personol sydd wedi eu nodi.

Efallai bod asesiad yn medru dod i'r casgliad bod angen asesiad mwy cynhwysfawr os yw'r anghenion brys wedi eu diwallu ac mae modd cynnal asesiad pellach gan ymarferydd unigol sydd yn meddu ar wybodaeth o adnoddau eraill.

Fel arfer, os bydd angen asesiad mwy cynhwysfawr, efallai bydd angen asesiad o anghenion gofal a chymorth fel rhywbeth atodol ar y data sydd ei angen yn yr asesiad cenedlaethol a'r offeryn cymhwyster.

Ni ddylai'r angen am asesiad mwy arbenigol atal neu oedi gwasanaethau priodol rhag cael eu darparu.

Efallai y bydd awdurdod lleol am gyfuno asesiad person gydag asesiad anghenion o'i ofalwr os yw'n fuddiol i wneud hyn. Fodd bynnag, gall yr awdurdod lleol ond gwneud hyn os ydynt wedi derbyn caniatâd y bobl yma.

Er mwyn osgoi bod asesiadau gwahanol yn cael eu cynnal o dan ddeddfwriaeth wahanol, gall awdurdod lleol gynnal asesiad anghenion o dan y Ddeddf ar yr un pryd â chynnal asesiad o dan ddeddfwriaeth arall neu ar yr un pryd â bod unrhyw gorff yn cynnal asesiad o dan unrhyw ddeddf arall. Yn y fath achosion, gall yr awdurdod lleol gynnal yr asesiad ar ran neu ar y cyd gyda'r corff arall. Yn yr achosion hynny lle y mae yna gorff arall wedi trefnu bod yr asesiad yn cael ei gynnal ar y cyd gyda pherson arall, gall yr awdurdod lleol gynnal yr asesiad arall ar y cyd gyda'r corff a'r person hwnnw.

Am arweiniad mwy manwl ar asesiadau, mae Gofalwyr Cymru wedi datblygu taflen ffeithiau gwych o'r enw Asesiadau: Canllaw ar gael Asesiad yng Nghymru o fis Ebrill 2016. Mae ar gael yma:

<https://www.carersuk.org/files/section/4922/taflen-ffeithiau-w1020-asesiadau.pdf>